| **GWASANAETH CERDD CAERFFILI** | | |
|---|---|---|
| | **Rhif yr Hysbysiad Preifatrwydd:** | 001 |
| | **Dyddiad cynhyrchu:** | 26.10.2021 |
| | **Dyddiad cyhoeddi:** | 24.01.2022 |
| | **Rhif y Fersiwn:** | 1.4 |
| | **Rhif ID y Ddogfen:** | |

**Manylion Cyswllt:** GWASANAETH CERDD CAERFFILI

Rhif ffôn: 07701020216

E-bost: WALKEJ@CAERPHILLY.GOV.UK

**Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut bydd GWASANAETH CERDD CAERFFILI yn prosesu gwybodaeth bersonol am ddisgyblion a theuluoedd sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Cerdd.

## Sut byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

## Ffynhonnell a'r math o wybodaeth sy'n cael ei phrosesu

**Rydym yn casglu, cadw ac yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion yn gysylltiedig â'r categorïau hyn:**

- gwybodaeth bersonol (fel enw, yr ysgol maent yn eu mynychu, a chyfeiriad cartref)
- gwybodaeth am bresenoldeb (fel y gwersi cerdd maent wedi'u mynychu)
- gwybodaeth feddygol ar gyfer mynychu clybiau ar ôl ysgol, ensembles y Sir, a digwyddiadau (h.y. alergeddau'r plant, meddyginiaeth, a gofynion deietegol)
- manylion cyswllt, cysylltiadau a ffefrir
- cyflawniad mewn arholiadau cenedlaethol a gwybodaeth am asesiadau (h.y. adroddiadau)
- ffotograffau
- fideos

### Ffynhonnell y data personol

Casglwyd yr wybodaeth hon o'r ffynonellau canlynol:

- Yn uniongyrchol gan y Disgyblion/Rhieni/Gofalwyr (e.e. cofrestri wythnosol a ffurflenni caniatâd ar gyfer tynnu lluniau / fideos i'w defnyddio ar blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol fel Facebook a Twitter)

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am ffynhonnell yr wybodaeth hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cerdd yn uniongyrchol.

## Prosesu yn ystod Pandemig Coronafeirws

Mae GWASANAETH CERDD CAERFFILI yn parhau i brosesu data personol at y dibenion a nodir o dan yr adran 'Pam rydym yn casglu ac yn defnyddio eich gwybodaeth' yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd eich data personol yn cael eu prosesu mewn ffyrdd newydd pan fyddwn yn dysgu drwy ddulliau digidol. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- darparu gwasanaethau addysgol i unigolion naill ai wyneb yn wyneb neu o bell gan ddefnyddio cyfleoedd dysgu digidol yn dilyn arweiniad gan Lywodraeth Cymru;
- monitro cynnydd addysgol disgyblion/plant wrth ddysgu o bell;
- monitro lles disgyblion wrth ddysgu o bell;
- rhoi cymorth ac arweiniad i blant a phobl ifanc, eu rhieni a'u gwarcheidwaid cyfreithiol;

**Sylwer bod angen i Rieni / Gofalwyr lofnodi ffurflenni caniatâd er mwyn ffrydio gwersi cerdd offerynnol yn fyw, ac ni fydd gwersi yn cael eu cynnal nes i'r gwaith papur gael ei wirio**.

Mae'r holl staff yn cadw at y mesurau diogelu yn unol ag Asesiad Risg Gwasanaethau Cerdd Caerffili. Mae'r broses yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth addysg isod ac arweiniad Llywodraeth Cymru:

### Deddf Addysg 2002(175)

Dyletswyddau Awdurdodau Addysg Lleol a chyrff llywodraethol mewn perthynas â lles plant

*(1) Bydd awdurdod addysg lleol yn gwneud trefniadau ar gyfer sicrhau bod y swyddogaethau a roddwyd iddynt yn eu capasiti fel awdurdod addysg lleol yn cael eu harfer gyda'r nod o ddiogelu a hyrwyddo lles plant.*

***Datblygu dulliau i gefnogi dysgu o bell***
*"Ar draws ein system addysg rydym yn blaenoriaethu cymorth i bob dysgwr barhau i ddysgu a phontio'n effeithiol yn ôl i'r ysgol pan ddaw'r amser i wneud hynny. Felly, mae'r cyngor hwn yn canolbwyntio ar waith lleoliadau ac ysgolion i ystyried sut y gellir cefnogi pob dysgwr i ddychwelyd i addysg gydag agwedd meddwl gadarnhaol, ac i barhau gyda'u dysgu mewn dull mor ddi-dor ag y bo modd.*

*Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, cynghorir ysgolion, Unedau Cyfeirio Disgyblion a lleoliadau i wneud pob ymdrech i:*

- *gadw pob plentyn yn ddiogel ac yn iach*
- *sicrhau bod dysgwyr sy'n wynebu'r perygl mwyaf yn cael eu cefnogi*
- *cefnogi llesiant gweithlu'r Gwasanaeth Cerdd*
- *galluogi dysgwyr i gael mynediad at ddysgu trwy ddulliau digidol neu ddulliau hwylus eraill mewn ffordd ymarferol a syml*
- *cefnogi dealltwriaeth gyffredin pob partner o sut gall dysgu o bell effeithiol gynnig profiadau dysgu eang*
- *cefnogi rhieni /gofalwyr i gael mynediad at arweiniad er mwyn deall eu rôl i gefnogi eu plant wrth ddysgu o bell*
- *cefnogi llesiant a sgiliau sylfaenol dysgwyr drwy ddulliau cysylltu a chyfathrebu effeithiol.*

*Bydd gan ysgolion a lleoliadau fynediad i gymorth gan awdurdodau lleol ac ysgolion wrth iddynt ddatblygu eu dulliau dysgu o bell. Mae'r cyngor hwn yn cynnwys cyfeirio at rai modelau y gall lleoliadau ac ysgolion eu mabwysiadu neu eu haddasu fel rhan o'u strategaeth dysgu o bell."*
WG (gov.wales)

**Eich Rhwymedigaethau**

Mae cael data penodol am ddisgyblion yn hanfodol ar gyfer defnydd gweithredol gan y Gwasanaethau Cerdd. Er bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni am ddisgyblion yn orfodol oherwydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu gontract (gweler isod), mae gwybodaeth arall yn ddewisol, ac yn yr achos hwn byddwn yn gofyn i chi roi eich caniatâd.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fyddwn yn casglu gwybodaeth a yw'n ofynnol i chi roi gwybodaeth benodol am ddisgyblion i ni, neu a oes gennych ddewis yn y mater. Bydd y Gwasanaeth Cerdd hefyd yn amlinellu unrhyw ganlyniadau petai chi'n penderfynu peidio â rhoi gwybodaeth neu'n tynnu eich caniatâd yn ôl yn ddiweddarach.

## Pam rydym yn casglu ac yn defnyddio eich gwybodaeth

Mae GWASANAETH CERDD CAERFFILI yn casglu gwybodaeth am blant a phobl ifanc pan fyddant yn cofrestru, ac ar adegau allweddol eraill yn ystod y flwyddyn ysgol. Mae angen gwybodaeth am Rieni / Gofalwyr os bydd disgyblion yn mynychu ensembles y Sir ar ôl ysgol ac mae'r wybodaeth hon yn cael ei chadw rhag ofn bydd unrhyw argyfwng yn codi pan fydd y disgyblion yn ein gofal.

Mae GWASANAETH CERDD CAERFFILI yn prosesu'r wybodaeth mae'n ei chasglu er mwyn gweinyddu'r addysg mae'n ei darparu i blant a phobl ifanc. Er enghraifft:

- darparu gwasanaethau cerddorol i unigolion;
- caniatâd i ffrydio gwersi yn fyw;
- monitro ac adrodd ar gynnydd cerddorol disgyblion/plant;
- casglu data am ganlyniadau arholiadau;
- trefnu digwyddiadau a theithiau addysgol;

Mae GWASANAETH CERDD CAERFFILI yn casglu gwybodaeth am blant a phobl ifanc pan maent yn gwneud cais i gofrestru ar gyfer gwersi cerdd. Gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gael mynediad i'r data hwn, am y rhesymau a restrwyd uchod.

Rydym yn defnyddio data am ddisgyblion at y dibenion canlynol:

- cefnogi dysgu'r disgyblion
- monitro ac adrodd ar gynnydd disgyblion
- asesu ansawdd ein gwasanaethau
- cadw plant yn ddiogel (manylion cyswllt mewn argyfwng neu alergeddau bwyd)
- trefnu teithiau a gweithgareddau (e.e. cyngherddau arddangos, ensembles, ac ati)

**Sail gyfreithiol dros brosesu**

Er mwyn i brosesu data fod yn gyfreithiol o dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016, rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliadau.

Mae prosesu gorfodol mewn ysgolion o'r wybodaeth am ddisgylion wedi'i gynnwys o dan:

*6(1)(e) mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu er mwyn arfer yr awdurdod swyddogol a roddwyd i'r rheolwr;*

Darperir y Dasg Gyhoeddus gan:

**Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021**

***10 Dyluniad y cwricwlwm***

*(1) Rhaid i bennaeth ysgol ddylunio cwricwlwm ar gyfer disgyblion yr ysgol.*

*(2) Bod yn rhaid i'r cwricwlwm gydymffurfio â gofynion yn adrannau 20 i 24, ac unrhyw ofyniad a osodir o dan adran 25.*

**28 Gofynion gweithredu cyffredinol**

Rhaid i'r cwricwlwm a fabwysiadwyd gael ei weithredu mewn ffordd sy'n —

(a) galluogi pob disgybl i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifiwyd yn y pedwar diben,
(b) sicrhau addysgu a dysgu sy'n darparu ar gyfer cynnydd priodol pob disgybl,
(c) addas ar gyfer oedran, gallu a doniau gwahanol pob disgybl,
(d) ystyried anghenion dysgu ychwanegol pob disgybl (os o gwbl),
(e) sicrhau addysgu a dysgu eang a chytbwys ar gyfer pob disgybl.

***Deddf Addysg 2002(11)(2)(a)***

*(2) Gall corff llywodraethu ysgol a gynhelir, gyda'r nod o sicrhau neu hwyluso'r canlynol —*

*(a) gwasanaethau neu gyfleusterau gan gwmni ar gyfer unrhyw ysgolion,*
*(b) arfer gwmni swyddogaethau awdurdod lleol perthnasol gan gwmni, neu*
*(c) drefniadau a wneir gan unrhyw unigolyn o'r math y cyfeirir atynt yn isadran (1)(c),*

*fuddsoddi yn y cwmni sydd i ddarparu'r gwasanaethau neu'r cyfleusterau neu arfer y swyddogaethau neu'r trefniadau a wneir neu a hwylusir trwy hynny.*

Mae'r trefniadau dewisol ar gyfer prosesu data personol wedi'u cynnwys o dan amod Erthygl 6:

*6(1)(a) mae gwrthrych y data wedi rhoi caniatâd i brosesu ei ddata personol ar gyfer un neu ragor o ddibenion penodol*

Er enghraifft, bydd GWASANAETH CERDD CAERFFILI yn gofyn am eich caniatâd i gyhoeddi neu ddangos ffotograffau o'ch mab /merch ar hysbysfyrddau'r Gwasanaeth Cerdd yn Ysgol Gyfun Heolddu, mewn erthyglau papurau newydd neu gylchgronau, ac ar ein gwefan a/neu ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol. Mae gennych yr hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg. Cysylltwch â'r ysgol i gael rhagor o wybodaeth.

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer dosbarthiadau penodol o wybodaeth sy'n cael eu galw'n 'gategorïau data personol arbennig', sy'n cynnwys:

- Tarddiad hiliol neu ethnig
- Credoau crefyddol neu gredoau eraill o natur debyg
- Barn wleidyddol
- Iechyd neu gyflwr corfforol neu feddyliol
- Data genetig
- Data biometrig (lle cânt eu defnyddio at ddibenion adnabod)
- Bywyd neu gyfeiradedd rhywiol
- Aelodaeth o undeb llafur

Mae deddfwriaeth Diogelu Data hefyd yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer data personol mewn perthynas â honiadau troseddol, trafodion, canlyniadau a dedfrydau.

Os bydd unrhyw wybodaeth yn perthyn i'r diffiniadau hyn, mae angen amodau ychwanegol o Erthygl 9 ar gyfer data categori arbennig ac Erthygl 10 ar gyfer data personol sy'n ymwneud â throseddau, gan ystyried darpariaethau ychwanegol Deddf Diogelu Data 2018. Os oes gennych unrhyw unrhyw gwestiynau yn y cyfamser, mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol.

Erthygl 9(2)(g) ar gyfer data categori arbennig –
*mae prosesu yn angenrheidiol am resymau o fudd sylweddol i'r cyhoedd ar sail cyfraith gartref*

Y ddeddf Aelod-wladwriaeth berthnasol yw Deddf Diogelu Data 2018, ac mae'r prosesu hwn wedi'i gynnwys yn Atodlen 1, Rhan II, 6(1).

*Bodlonir yr amod hwn os yw'r prosesu —*

*(a) yn angenrheidiol at ddiben a restrir yn is-baragraff (2), ac*
*(b) mae'n angenrheidiol am resymau yn ymwneud â budd sylweddol y cyhoedd.*

(2) *Y dibenion hynny yw —*

*(a) arfer swyddogaeth a roddwyd i unigolyn gan ddeddf neu reol y gyfraith;*
*(b) arfer swyddogaeth y Goron, Gweinidog y Goron neu adran y llywodraeth.*

## Pwy fydd yn cael mynediad i'ch gwybodaeth?

### Manylion y Rheolwr Data a'r Swyddog Diogelu Data

Rheolwr Data eich gwybodaeth yw CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI.

Mae'r Swyddog Diogelu Data o dan gontract gan yr Ysgol i weithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r ysgol ar 01443 864322, neu e-bostiwch dataprotection@caerphilly.gov.uk

## Manylion prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth

Prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth fydd GWASANAETH CERDD CAERFFILI a'r ysgol yng Nghaerffili rydych chi neu eich plentyn yn ei mynychu.

### Manylion am sut rydym yn rhannu eich gwybodaeth gyda sefydliadau eraill

Efallai bydd gofyn i ni rannu rhywfaint o wybodaeth am ddisgyblion gyda sefydliadau penodol ond bydd hynny am reswm clir a ddiffiniwyd a sail gyfreithiol briodol o dan ddeddfwriaeth diogelu data.

Byddwn bob amser yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn ffordd ddiogel.

| **Sefydliad** | **Rheswm** | **Sail Gyfreithiol** |
|---|---|---|
| Yr ysgol mae'r disgybl yn mynychu yn ddiweddarach | Trosglwyddo rhestri i sicrhau parhad yr addysg | Cydymffurfio â thasg gyhoeddus (Erthygl 6 GDPR y DU). |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Darparu cymorth TG | Prosesu sy'n angenrheidiol at ddibenion cyfreithiol (Erthygl 6 K GDPR y DU). |

| | | |
|---|---|---|
| | Darparu cymorth Iechyd a Diogelwch | Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu dasg gyhoeddus (Erthygl 6 GDPR y DU). |
| | I amddiffyn hawliadau yswiriant | Prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer buddion cyfreithlon (Erthygl 6 GDPR y DU) a thrafodion cyfreithiol (Erthygl 9 GDPR y DU). |
| | At ddibenion diogelu | Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol, buddiannau hanfodol, neu dasg gyhoeddus (Erthyglau 6 a 9 GDPR y DU). |
| Byrddau Arholi (e.e. Associated Board of the Royal Schools of Music, Trinity ac ati,) | Gweinyddu pob agwedd ar arholiadau allanol, a phrofion nad ydynt yn cael eu harholi, gan gynnwys:<br>• ymgeisio am arholiadau<br>• rhoi canlyniadau i fyfyrwyr<br>• unrhyw drefniadau arbennig ar gyfer cyflyrau iechyd<br>• rhoi canlyniadau a thystysgrifau<br>• arolygiadau ac apeliadau<br><br>Efallai y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu hefyd mewn cyfathrebiadau yn ymwneud â'r broses arholiadau. | Cydymfurfio â thasg gyhoeddus (Erthygl 6 GDPR y DU).<br><br>Sylwer: bydd GWASANAETH CERDD CAERFFILI yn gofyn am eich caniatâd i gyhoeddi'r canlyniadau uchaf mewn cyhoeddiadau ysgol, newyddion lleol, cyfryngau cymdeithasol, ac ati. |

**Manylion unrhyw broseswyr data allanol**

## Synergy (rheoli data)

**Data myfyrwyr a brosesir:**
**enw'r disgybl, enw'r rhiant a manylion cyswllt, manylion cyswllt mewn argyfwng, presenoldeb y disgybl, ac unrhyw anghenion deietegol neu feddygol**

Synergy yw enw'r System Rheoli Gwybodaeth (MIS: Management Information System) a ddefnyddir i storio gwybodaeth am ddisgyblion a gesglir gan yr ysgol yng Nghaerffili rydych chi neu eich plentyn yn ei mynychu; caiff gwybodaeth ei storio'n uniongyrchol gan rieni/gofalwyr pan fydd disgybl yn ymuno â GWASANAETH CERDD CAERFFILI. Cedwir data ar weinyddion Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a defnyddir safonau rhyngwladol (h.y. ISO/IEC 17799:2005 a BS ISO/IEC 27001:2005) fel y fframwaith ar gyfer gosod amcanion rheoli a rheolaethau.
https://www.servelec.co.uk/legals-terms/privacy-policy/ |
https://www.servelec.co.uk/legals-terms/information-security-policy/

## Evolve (asesiadau risg)

**Data staff a brosesir: enw llawn (h.y. oedolyn cyfrifol) ac ysgol**

Mae Evolve yn cynorthwyo GWASANAETH CERDD CAERFFILI i asesu risgiau ar gyfer teithiau ensemble gyda staff a disgyblion. Caiff y data eu storio ar gronfeydd data yn y Deyrnas Unedig ac mae gan bob gweinydd system Monitro Bygythiadau Rhagweithiol (Proactive Threat Monitoring) i ganfod unrhyw ymgais i ymyrryd.
https://evolve.edufocus.co.uk/evco10/privacy.asp |
http://edufocus.co.uk/pages/evolve/gdpr.asp

## Microsoft Outlook (cyfathrebu)

**Data myfyrwyr a brosesir: enw'r disgybl, ysgol, gwybodaeth am bresenoldeb, cyfathrebiadau yn ymwneud â disgyblion a'u teuluoedd**

Mae Microsoft Outlook yn system e-bost sy'n cefnogi GWASANAETH CERDD CAERFFILI â gwaith gweinyddu busnes ac er mwyn cyfathrebu ag ysgolion Caerffili. Caiff data eu storio mewn Canolfannau Data yn y DU ac mae Microsoft yn rheoli mynediad staff i ddata personol. Mae Microsoft yn sicrhau bod data yn cael eu hengryptio wrth eu storio yn ei Ganolfannau Data a phan fydd data yn teithio ar draws y rhyngrwyd.
https://www.microsoft.com/en-us/trust-center/privacy/gdpr-overview |
http://www.microsoftvolumelicensing.com/DocumentSearch.aspx?Mode=3&DocumentTypeId=46

**Manylion am drosglwyddiadau i unrhyw wledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd**

## Twitter (dathlu llwyddiant)

**Data myfyrwyr a broesesir: enw'r disgybl, ffotograff/fideo o'r disgybl, dosbarth, ysgol**

Mae **Twitter** yn wefan y cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir i ddathlu llwyddiant disgyblion, gweithgareddau yn yr ysgol, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni/gofalwyr. Byddwn bob amser yn gofyn am ganiatâd cyn cyhoeddi lluniau neu fideos wrth ymyl enw plentyn.
https://twitter.com/en/privacy

## Facebook (dathlu llwyddiant)

**Data myfyrwyr a brosesir: enw'r disgybl, ffotograff/fideo o'r disgybl, dosbarth, ysgol**

Mae **Facebook** yn wefan y cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir i ddathlu llwyddiant disgyblion, gweithgareddau yn yr ysgol, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni /gofalwyr. Byddwn bob amser yn gofyn am ganiatâd cyn cyhoeddi lluniau neu fideos wrth ymyl enw plentyn.
https://www.facebook.com/about/privacy/update?ref=old_policy

**Ceisiadau am wybodaeth**

Gall yr holl wybodaeth a gofnodir a gedwir gan y Gwasanaeth Cerdd fod yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data (Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016 a Deddf Diogelu Data 2018).

Os bydd yr wybodaeth rydych yn ei darparu yn destun cais o'r fath, lle bo'n bosibl bydd yr ysgol yn ymgynghori â chi cyn ei rhyddhau. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth ni fyddwn yn rhyddhau eich gwybodaeth os yw'r ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu hynny.

## Am ba mor hir y byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth

### Manylion y cyfnod cadw

Rydym yn cadw data am ddisgyblion yn ddiogel am y cyfnod amser penodol a nodwyd yn ein hamserlen cadw data. Bydd GWASANAETH CERDD CAERFFILI yn cadw gwybodaeth yn unol â'r canlynol a nodir yn ein hamserlen gadw:

| Disgrifiad sylfaenol o'r ffeil | Darpariaethau Statudol | Cyfnod Cadw [Gweithredol] | Cam gweithredu ar ddiwedd oes weinyddol y cofnod | Gwybodaeth bersonol |
|---|---|---|---|---|
| Yr holl gofnodion sy'n ymwneud â'r disgybl yn ystod y cyfnod pan fydd yn derbyn gwersi offerynnol yn yr ysgol. | | Cadw tra bo'r plentyn yn defnyddio Gwasanaeth Cerdd Caerffili. | GWAREDU YN DDIOGEL | Ydy |
| Canlyniadau arholiadau | | Y flwyddyn gyfredol + 3 blynedd | GWAREDU YN DDIOGEL | Ydy |
| Yr holl gofnodion yn ymwneud â chreu a rheoli cyllidebau, gan gynnwys cyfriflen y gyllideb flynyddol a phapurau cefndir | | Oes y gyllideb + 3 blynedd | GWAREDU YN DDIOGEL | |
| Anfonebau, derbynebau, a chyfrifiadau, hysbysiadau danfoniadau | Deddf Cyfyngiadau 1980 (Adran 2) | Blwyddyn ariannol gyfredol + 6 blynedd | GWAREDU YN DDIOGEL | â Ydy |

Edrychwch ar wefan y bwrdd arholiad perthnasol isod i gael rhagor o wybodaeth am sut mae'n prosesu data personol pan fydd disgyblion yn sefyll arholiadau graddau:
ABRSM: Privacy Policy | Data Protection | Trinity College London

Gall GWASANAETH CERDD CAERFFILI gadw recordiadau/lluniau sy'n dangos y gwaith rydym yn ei wneud am gyfnod amhenodol at ddibenion archifo er budd y cyhoedd.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

### Eich hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 2018

Mae deddfau Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i wrthrychau'r data (y sawl y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef/hi), gan gynnwys:

- **Yr hawl i gael gwybod** sut bydd data personol yn cael eu casglu, storio, rheoli, diogelu a'u prosesu.
- **Yr hawl i gael mynediad** i ofyn am gopi o wybodaeth bersonol amdanoch a gedwir. Fodd bynnag, dylech wybod y gall gwybodaeth gael ei dal yn ôl yn gyfreithiol weithiau.
- **Yr hawl i gywiro** data personol anghywir neu anghyflawn.

- **Yr hawl i ddileu,** sef yr hawl i ddileu eich data personol mewn rhai amgylchiadau. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw ddata personol y mae'n rhaid eu cadw yn ôl y gyfraith.
- **Yr hawl i gyfyngu**, sy'n rhoi hawl i chi gyfyngu ar y ffordd rydym yn defnyddio eich data personol mewn rhai amgylchiadau.
- **Yr hawl i gludadwyedd data,** sef yr hawl i'r unigolyn dderbyn copïau o ddata a ddarparwyd i reolwr mewn fformat cludadwy.
- **Yr hawl i wrthwynebu** prosesu data personol amdanoch; a'r olaf yw
- **Hawliau yn ymwneud â gwneud penderfyniadau awtomataidd a phroffilio.**

Mae gan blant a phobl ifanc yr un hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data. Felly, os yw rhiant /gofalwr yn dymuno datgan yr hawliau hyn ar ran plentyn bydd angen darparu prawf o hunaniaeth a Chyfrifoldeb Rhiant. Os yw'r plentyn neu unigolyn ifanc yn 12 oed neu'n hŷn, ystyrir fel rheol ei fod yn ddigon aeddfed i ddatgan yr hawliau hyn ei hun. O ganlyniad, bydd angen i'r rhiant/gofalwr ddangos prawf bod y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn rhoi caniatâd iddo ddatgan yr hawliau hyn ar ei ran.

Er mwyn datgan eich hawliau, cysylltwch â GWASANAETH CERDD CAERFFILI gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar frig y ddogfen hon. Bydd copi o unrhyw gais unigol i ddatgan eich hawliau a'ch ymateb yn cael ei gadw am 3 blynedd.

**Gweithdrefn Gwyno**

Os ydych yn anfodlon â'r ffordd mae'r ysgol wedi ymdrin â'ch cais / gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â GWASANAETH CERDD CAERFFILI yn y lle cyntaf, gan amlinellu eich pryderon.

Os ydych yn dal yn anfodlon, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r ysgolion ar 01443 864322 / dataprotection@caerphilly.gov.uk

Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn goruchwylio Deddf Diogelu Data yn y DU, i asesu a yw prosesu gwybodaeth bersonol yn debygol o gydymffurfio neu beidio â darpariaethau ein cyfrifoldebau deddfwriaethol. Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael yma: www.ico.org.uk.

# Crynodeb o’r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

Mae GWASANAETH CERDD CAERFFILI yn prosesu gwybodaeth bersonol am ddisgyblion i gefnogi dysgu’r disgyblion, monitro cyflawniad a chadw plant yn ddiogel. Rydym hefyd yn prosesu gwybodaeth i weinyddu teithiau a gweithgareddau dewisol y Gwasanaeth Cerdd. Gall rhywfaint o’r data personol uchod gael ei brosesu mewn ffyrdd newydd yn ystod Covid-19 wrth i ni symud tuag at ddysgu drwy ddulliau mwy digidol lle mae cynnydd addysgol a llesiant disgyblion yn cael eu holrhain mewn ffordd arall.

Mae’r Gwasanaeth Cerdd yn cymryd ei gyfrifoldebau diogelu data yn ddifrifol iawn, a bydd yn storio ac yn defnyddio’r holl wybodaeth bersonol yn ddiogel, gan ei gwaredu pan nad oes ei hangen mwyach. Gall gwybodaeth bersonol gael ei rhannu’n ddiogel at ddibenion clir gyda sefydliadau eraill fel Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, byrddau arholiadau, ysgolion Caerffili, neu unrhyw bartneriaid allanol eraill sy’n darprau gwasanaeth i ddisgyblion /teuluoedd. Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â’ch gwybodaeth bersonol, gan gynnwys yr hawl i gael gwybodaeth a’r hawl i gwyno.

I gael rhagor o wybodaeth am y ffordd rydym yn prosesu eich gwybodaeth a’ch hawliau, cliciwch ar y ddolen ganlynol: [https://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Privacy-notices](https://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Privacy-notices)